

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

08456 000 813

## **Safleoedd Arddangos**

Rheoli'r newid: o wartheg magu i  
fagu lloeau biff o'r diwydiant llaeth

## **Cyfnewidfa Rheolaeth**

Ymchwilio i fanteision ffrwythloni  
artiffisial mewn geifr





## Fferm laeth sy'n lloea mewn blociau am dynhau'r cyfnod lloea i 10 wythnos

Mae ffermwr llaeth sy'n lloea mewn dau floc yn defnyddio technoleg i ddod o hyd i fuchod sy'n gofyn tarw a chynyddu ei gyfradd loea chwe wythnos.

Mae Iwan Francis yn lloea hanner ei fuches o 200 o fuchod yn y gwanwyn a'r gweddill yn yr hydref, y ddau dros gyfnod o 12 wythnos.

Mae Iwan am dynhau'r blociau lloea hynny i 10 wythnos, ac un strategaeth y mae wedi ei defnyddio fel ffermwr safle arddangos Cyswllt Ffermio yw gosod coleri i ganfod y rhai sy'n gofyn tarw.

"Y nod yw cael y buchod yn ôl yn gyflo yn fwy effeithlon heb gynyddu'r cyfraddau gwag," dywed Iwan, sy'n ffermio Nantglas, ger Talog, Sir Gaerfyrddin, fferm 55 hectar ac yn rhentu 75ha arall o dir.

Trwy roi pwyslais ar ganfod y buchod sy'n gofyn tarw, gall defnyddio offer, gan gynnwys technoleg, i ddod o hyd i'r buchod hynny chwarae rôl sylweddol mewn buchesi sy'n lloea mewn blociau.

Ond, os nad yw'r buchod yn iach ac nad ydynt yn dangos eu bod yn gofyn tarw yn glir, ni all unrhyw dechnoleg helpu, dywed Gwenan Evans, swyddog technegol llaeth Cyswllt Ffermio, sy'n goruchwyllo'r prosiect.

Bydd y milfeddyg Kate Burnby, yr ymgynghorydd arbenigol yn y prosiect Cyswllt Ffermio hwn yn Nantglas, felly yn adolygu rheolaeth y fuches yn Nantglas a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ffrwythlondeb, gan gynnwys maethiad a statws afiechyd.

Gan nad un peth sy'n achosi diffyg ffrwythlondeb, gwneir newidiadau i nifer o arferion rheoli, dywed Gwenan.

"Trwy weithredu ac arddangos sut y gall newidiadau bach i sawl agwedd ar reolaeth

y fferm wella ffrwythlondeb, bydd yn fodd o ddangos rhai o'r atebion a sut y gellir eu cyflawni.

"Yr amcan yw tynhau'r bloc lloea gan sicrhau bod canran y gyfradd sy'n wag yn llai na 10%."

Mae AHDB yn amcangyfrif bod ffrwythlondeb heb fod ar ei orau yn costio £25,000/y flwyddyn mewn buches o 100 sy'n perfformio ar y cyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.2c/litr o ran cynhyrchiant llaeth a gollir, llai o loeau, mwy o waredu stoc, a chostau bridio ac iechyd anifeiliaid uwch.

Yn anaml y mae un ateb i wella ffrwythlondeb gan fod nifer o ffactorau yn cyfrannu at berfformiad yr anifail.

Mae'r elfennau sy'n cyfrannu yn cynnwys maethiad o ran egni a phrotein, moethusrwydd y fuwch, cloffni a thechneg ffrwythloni artiffisial.

Yn Nantglas, mae rheoli 24 wythnos o loea a 24 wythnos o gyfloi yn cyfrif am lawer o amser ac egni Iwan, dywed Gwenan.

"Dylai'r cynllun i dynhau'r blociau lloea i gyfnod mwy tynn o 10 wythnos yr un adael i Iwan gael mwy o amser i redeg y fferm a chanolbwyntio ar ffrwythlondeb," dywedodd.

"Y nod yw cael y buchod yn ôl yn gyflo yn fwy effeithlon, heb gynyddu'r cyfraddau gwag."



## Defnyddio technoleg i gynyddu'r monitro ar iechyd i wella patrwm lloea, cyfraddau cyfebu a lleihau colledion wrth loea

Mae'r prosiect ar safle arddangos Moelogan Fawr yn rhedeg ers tro. Rhoddwyd bolysau smaXtec i 40 o heffrod Stabiliser blwydd oed ac mae'r orsaf ganolog sy'n gweithio ar ynni'r haul wedi cael ei haddasu a'i gwneud yn symudol fel y gellir ei symud yn rhwydd gyda'r gwartheg yn eu cylchdro pori. Mae'r bolysau yn monitro tymheredd cyrff y buchod a'u gweithgaredd yn gyson, ac mae'r data yn cael ei dderbyn gan yr orsaf ganolog cyn cael ei anfon ymlaen i'r cwmwl.

Yn y ddau fis cyntaf mae'r dechnoleg wedi rhoi gwybod i Llion a Sian Jones am dymheredd uchel a chadarnhawyd gan y milfeddyg wedyn mai twymyn oedd yn gyfrifol. Oherwydd bod yr afiechyd wedi ei ddynodi ac wedi cael diagnosis defnyddiwyd llai o wrthfotig i'w trin ac ni wnaeth eu perfformiad ddioddef fel y gallai petai'r dwymyn wedi cael cyfle i ddatblygu.

Un o brif amcanion cyflwyno'r bolysau i'r fuches fagu ym Moelogan Fawr oedd bod o gymorth i ddod o hyd i fuchod yn gofyn tarw. Maent yn defnyddio ffrwythloni artiffisial ar ganran uchel o'r fuches, ac mae'n aml yn anodd canfod heffrod ifanc sy'n gofyn tarw, gall y dechnoleg yma leihau gwaith a'r nifer o weithiau y bydd angen ffrwythloni'n artiffisial. Mae'r dechnoleg yn rhoi gwybod i'r ffermwr pan fydd yr heffrod yn gofyn tarw a phryd fyddai orau i'w ffrwythloni'n artiffisial. Yn yr ychydig wythnosau cyntaf, mae'r bolysau wedi dynodi anifeiliaid sydd wedi bod yn gofyn tarw ond nid oeddynt yn dangos arwyddion gweladwy o ofyn tarw wrth eu gwyllo.

### CAMAU NESAF:

1. Parhau i werthuso'r data sy'n cael ei gasglu.
2. Archwilio'r heffrod i weld a ydyn nhw'n gofyn tarw, i weld a yw'r bolysau yn perfformio fel y dylent.
3. Paratoi ar gyfer y cyfnod paru a dynodi'r rhai sydd heb eu cofnodi yn gofyn tarw i'r milfeddyg eu harchwilio.



Ffigwr 1.  
Gorsaf ganolog smaXtec

# Safle Arddangos

Bu Elan Davies, un o'n swyddogion technegol cig coch, yn gweithio gyda Neil Davies, ffermwr safle arddangos, i sefydlu prosiectau fydd yn ymdrechu i wella effeithlonrwydd ei fusnes.

## Safle Arddangos:

Cefnllan, Llangamarch, Powys

## Swyddog Technegol:

Elan Davies

**Teitl y Prosiect:** Rheoli'r newid: o wartheg magu i fagu lloeau biff o'r diwydiant llaeth

## Cyflwyniad i'r Prosiect:

Mae safle arddangos Cefnllan yn fferm biff a defaid yn Llangamarch, Powys sy'n cael ei rhedeg gan Neil Davies a'i deulu. Ar hyn o bryd mae'n trosglwyddo o'r fenter fuchod magu draddodiadol i fagu lloeau biff o'r diwydiant llaeth. Nod y prosiect yw ymchwilio i ddichonolrwydd newid o fenter fuchod magu draddodiadol i fagu, tyfu ac efallai gorffen lloeau croesiad Angus o'r diwydiant llaeth, gyda'r nod o wneud hyn ar system gost isel, glaswellt a phorthiant. Bydd monitro a chael y perfformiad gorau gan y lloeau, yn ogystal â rheoli costau, yn agweddau allweddol ar y prosiect.

Bydd y prosiect hwn yn cynnig templed ar gyfer deall y penderfyniadau a'r ystyriaethau sy'n rhan o gychwyn menter newydd fel hon, yn ogystal â chreu patrwm ar gyfer rheoli menter biff diwydiant llaeth, costau isel, ar sail porthiant.

## Amcanion y Prosiect:

- Ymchwilio i ddichonolrwydd newid o fenter fuchod magu draddodiadol i fagu, tyfu a gorffen lloeau o'r diwydiant llaeth wedi eu prynu i mewn.
- Archwilio'r potensial o gyflawni perfformiad da ar system gost isel o laswellt a phorthiant.
- Cynnig templed i fusnesau fferm eraill sy'n ystyried trosglwyddo o fuchod magu traddodiadol i orffen lloeau o'r diwydiant llaeth.
- Cynnig patrwm ar gyfer rheoli menter biff diwydiant llaeth, costau isel ar sail porthiant.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

1. Cynyddu cynhyrchiant net o ran kg o biff a gynhyrchir i bob hectar o 50%, o 184kg/ha (buchod magu) i 367kg/ha (lloeau wedi eu prynu yn y gwanwyn)
2. Cynyddu cynnyrch glaswellt blyneddol (tunnelli DM/ha) o 33%, o 5.1 i 6.8
3. Cynyddu'r defnydd o laswellt yn flynyddol o 38% (0.7 tunnell DM/ha)
4. Cynyddu'r cynnydd mewn pwysau byw o 0.8 i 1kg y dydd yn y system orffen gwartheg ar laswellt
5. Gwella ansawdd y glaswellt o 63 i 70 o ran gwerth D (treuliadwyedd) ac anelu at gael 0.8kg o gynnydd mewn pwysau byw yn ddyddiol dros y gaeaf yn y system wartheg gan ddefnyddio llai o ddwysfwyd.



Ffigwr 1. Mesur glaswellt yn Cefnllan

## Gweithgareddau hyd yma a cherrig milltir (Medi 2019 – Awst 2020)

| Gweithgareddau Allweddol                                     | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A |
|--------------------------------------------------------------|---|---|---|----|---|----|---|---|---|---|---|---|
| Mesur gorchudd glaswellt y fferm gyfan gyda mesurydd plât    |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |
| Asesiad gwaelodlin o'r fferm a'r fenter                      |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |
| Cynllunio ar gyfer newid (sefyllfaoedd enghreifftiol Farmax) |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |
| Cyllidebu porthiant gaeaf                                    |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |
| Mesur y glaswellt (bob pythefnos)                            |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |
| Pwysu'r lloeau (yn fisol)                                    |   |   |   |    |   |    |   |   |   |   |   |   |

## Y Diweddaraaf am y Prosiect:

Cyrhaeddodd y criw cyntaf o 100 o loeau 3-4 mis oed croes Aberdeen Angus a llaeth (oedd yn pwysu 140kg ar gyfartaledd) ar y fferm yn Ebrill, 2020. Dafydd Jones, Uwch Ymgynghorydd Systemau Da Byw i Precision Grazing, sy'n arwain y gwaith prosiect ac mae wedi bod yn cynllunio cynllun i rannu'r fferm er mwyn gwneud y defnydd gorau o laswellt. Mae mesuriadau glaswellt gan ddefnyddio mesurydd plât yn cael eu gwneud bob pythefnos yn ystod y tymor tyfu glaswellt i ddynodi'n union faint o laswellt sydd ar gael i'w bori. Mae meddalwedd AgriNet a Farmax yn cael eu defnyddio i helpu i gofnodi'r mesuriadau glaswellt a chynllunio ymlaen llaw.

## Camau Nesaf:

- Pwysu lloeau yn fisol i gadw golwg fanwl ar gynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG).
- Mesur gorchudd fferm ar y fferm gyfan bob pythefnos i sicrhau'r defnydd glaswellt gorau posib ar y platform pori cylchdro.



Ffigwr 2. Data mesur glaswellt yn Cefnllan



# Y diweddaraf am brosiectau safle arddangos Rhiwaedog

Gwawr Hughes, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Cig Coch

## Prosiect 1: Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o laswellt

Pwyslais presennol y prosiect effeithlonrwydd glaswellt yn Rhiwaedog yw gwella'r defnydd o nitrogen ar y fferm. Chwelir wrea yn gynnar yn y tymor fel arfer, ac yna amoniwm nitrad hyd dorri'r silwair. Er nad yw'r fferm yn defnyddio cyfanswm mawr o wrtaith, fe ellid gweld arbedion yn ôl arbenigwr y prosiect, Chris Duller.

Un o brif broblemau wrea yw'r nitrogen sy'n cael ei golli fel amonia. Ym mis Ebrill, sefydlwyd cynllun treialu yn Rhiwaedog, yn canolbwyntio ar effaith wrea mewn cymhariaeth ag wrea wedi ei drin ar dyfiant glaswellt a'i ansawdd. Mewn wrea wedi ei drin mae atalyddion yn rhan o'r pelenni sy'n anelu at leihau'r colledion nitrogen i amonia. Dangosodd yr ymchwil ostyngiad o rhwng 25-40% yn y colledion amonia wrth ddefnyddio wrea sydd wedi ei drin.

Ar gyfer y cynllun treialu, rhannwyd cae yn dair rhan. Rhoddwyd wrea confensiynol ar y rhan gyntaf, gadawyd yr ail ran heb ei thrin fel plot rheoli, a rhoddwyd wrea wedi ei drin ar y drydedd ran. Gorchuddiwyd y plot rheoli â haen o blastig wrth chwalu wrea er mwyn atal i wrtaith syrthio ar y rhan honno o'r cae.

Bydd canlyniadau'r cynllun treialu yn gadael i ni gyfrifo faint o laswellt sydd wedi tyfu am bob kg o nitrogen a chwalwyd.

Cam nesaf y prosiect fydd cymharu pa mor gost-effeithiol yw wrea wedi ei drin mewn cymhariaeth ag amoniwm nitrad confensiynol trwy fonitro twf y glaswellt a chostau'r gwahanol driniaethau i weld beth sydd fwyaf effeithlon. Bydd ansawdd y glaswellt hefyd yn cael ei fonitro i weld a oes unrhyw wahaniaethau.



## Prosiect 2: Gwerthuso manteision technoleg canfod buchod sy'n gofyn tarw i gael enillion o ran ffrwythlondeb buchod sugno

Prif nod y prosiect oedd gwella ffrwythlondeb a thynhau'r patrwm lloea ar y safle arddangos i sicrhau buches biff fwy effeithlon a chynhyrchiol. Y dangosyddion perfformiad allweddol yr ydym yn anelu at eu cyflawni o ganlyniad i'r prosiect yn Rhiwaedog yw:

- Tynhau'r cyfnod lloea yn y ddau floc lloea i gael cyfradd lloea 90% mewn cyfnod o 6 wythnos.
- Lleihau'r bwch rhwng lloeau i'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig 'un llo byw' bob 365-375 diwrnod.
- Cynyddu'r cyfraddau cyfebu i >95% o'r fuches yn gyfno wrth gael y diagnosis beichiogrwydd cyntaf.

Ar 25 Ebrill, trowyd 13 o fuchod at darw pedigree Du Cymreig, Machreth Bleddyn y 6ed, a ychwanegwyd at y fuches yn Ionawr 2020. Rhoddwyd tagiau electronig Moocall HEAT ar y buchod i gyd a'u cysylltu â'r bwrdd rheoli Moocall yn unigol. Rhoddwyd coler electronig Moocall HEAT ar y tarw. Defnyddiwyd yr un broses ar 13 Mai, pan drowyd 16 o heffrod at darw Saler.

Mae'r goler yn defnyddio gwybodaeth ar sail pa mor agos yw'r anifeiliaid, ymddygiad wrth baru a lefelau gweithgarwch i bennu yn fwy cywir pryd y mae buchod yn gofyn tarw. Pan fydd buwch neu heffer yn gofyn tarw, anfonir neges trwy'r ap neu trwy neges testun i hysbysu'r ffermwyr, Aled a Dylan. Gall cynnydd y fuches gael ei fonitro ar ap Breedmanager Moocall.

Y nod yw cadw golwg ofalus ar y fuches, a dynodi unrhyw fuchod neu heffrod nad ydynt yn cylchu yn iawn. Gall unrhyw broblemau gael eu harchwilio ymhellach trwy archwiliad corfforol a/neu sganio gan y milfeddyg.

### Camau nesaf:

- Monitro gweithgarwch ar fwrdd rheoli Breedmanager Moocall i sicrhau bod y buchod yn cylchu yn iawn.
- Dynodi unrhyw fuchod nad ydyn nhw'n gyfno ar ôl cael tarw y tro cyntaf a chynnal archwiliad corfforol a sganio os bydd angen.





## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr.



### Cyflwyno Dr Will Stiles:

Mae Dr Will Stiles yn ddarlithydd yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau addysgu, mae'n arwain y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn IBERS i Cyswllt Ffermio. Ymchwil mewn gwyddor pridd ac ecoleg yw cefndir ymchwil Will ac mae ei ymchwil yn chwilio am ffordd i leihau effaith amgylcheddol amaethyddiaeth, i wneud ffermio a chynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy. O'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, mae Will wedi cyhoeddi nifer o erthyglau technegol ar amrywiaeth o bynciau, gan roi pwyslais arbennig ar newid hinsawdd ac agweddau amgylcheddol, i rannu'r ymchwil gwyddonol cyfredol i'r diwydiant amaethyddol.

## Gwella cynnyrch ac ansawdd glaswellt a chnydau porthiant - Dr Will Stiles

Mae glaswelltir amaethyddol yn **26% o dir y byd** ac yn **70% o dir amaethyddol**. Wrth i'r galw am gynhyrchion anifeiliaid barhau i gynyddu, mae gwella'r potensial cynhyrchu trwy'r rheolaeth orau posibl ar laswelltir yn dod yn her allweddol.

### Dulliau o wella cnydau porthiant:

**Bridio cyltifarau dethol** yw'r dull o ddethol organebau porthiant ar gyfer cryfhau'r nodweddion ffafriol gan gynnwys y cynnyrch cynnwys sych (DM), treuliadwyedd DM, cynnwys maethol meinwe planhigion, hirhoedledd y cnwd a'i allu i wrthsefyll plâu ac afiechydon (h.y. ffwng pathogenaidd, nematodau).

Gall **dadansoddi genomig** a dulliau fel dadansoddi loci nodweddion ansoddol (QTL) neu ddewis gyda chymorth marcwyr (MAS) wella'r dulliau bridio dethol trwy ddynodi'r genynnau posibl sy'n gysylltiedig â gwelliant o ran maeth, neu nodweddion yn gysylltiedig â gwell cynhyrchiant. Ar ôl eu dynodi, gall y genynnau hyn gael eu targedu yn benodol, gan wella deilliannau mentrau bridio.

### Pa nodweddion sy'n bwysig?

Mae **effeithlonrwydd y defnydd o nitrogen** yn darged allweddol, gan ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r protein sydd mewn porthiant. Planhigion sydd â photensial tyfiant mawr a chrynhoad o nitrogen mewn meinwe sy'n cynnig y canlyniadau gorau o ran cynhyrchiant.

Mae **treuliadwyedd** a'r crynhoad o garbohydradau toddadwy mewn dŵr (WSC) ym meinwe'r dail hefyd yn nodwedd allweddol gan fod hyn yn gwella perfformiad yr anifeiliaid. Mae'r dewisiadau sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys cyltifarau *Lolium* AberMagic, AberDart, ac AberElite, sydd i gyd wedi cael eu dangos i fod â chyfraddau tyfu uchel a chrynhoad WSC uchel yn ystod y gwanwyn a'r haf.

Mae **gwella cynhyrchiant biomas** wedi bod yn ganolbwynt traddodiadol ar gyfer rhaglenni bridio porthiant. Mae'r dulliau o wneud hyn yn y dyfodol yn debygol o ganolbwyntio ar ddefnyddio'r genynnau sy'n gysylltiedig â heneiddio, i gynyddu hyd y tymor tyfu.

Mae **biogryfhau** cnydau grawn gydag elfennau hybrin hanfodol yn wyddor sydd wedi ei sefydlu i raddau helaeth. Gallai gweithredu'r un egwyddorion o ran cynhyrchu porthiant wella iechyd a lles da byw, ac yna gwella iechyd pobl sy'n bwyta'r cynhyrchion yma.

Mae **rhwyngweithio amgylcheddol** yn gynyddol yn cael ei gydnabod fel nodwedd allweddol o berfformiad planhigion. Gall planhigion addasu'r rhisosffer o gwmpas eu gwreiddiau trwy newid cyfansoddion cemegol yr archwysadau o'r gwreiddiau. Gallai deall y peirianwaith sy'n ganolog i'r broses hon roi cyfle i ddefnyddio strategaethau fel brechu cnydau porthiant newydd gyda micro-organebau buddiol, neu ddethol organebau gyda chyfansoddiad penodol i archwysiad y gwreiddiau.



# Pwysigrwydd plannu'r goeden iawn yn y lle iawn

Dafydd Owen, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Coedwigaeth

Mae cynllunio coetir sydd yn cyd-fynd gyda amcanion y ffermwr yn holl bwysig ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol ac economaidd y fferm. Gall yr amcanion hynny fod yn rhai cadwriaethol, amgylcheddol neu economaidd; drwy gynhyrchu i greu incwm, neu gallant fod er mwyn elwa da byw drwy gynyddu elfen gysgodol a bioddiogelwch y fferm. Mae'n bwysig felly edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd wrth gynllunio a chlustnodi ardaloedd addas ar gyfer plannu.

Wrth gynllunio, mae'n bwysig meddwl sut gall y fferm neu'r system dan sylw elwa o bresenoldeb y coed. Er enghraifft, a fyddai mwy o gysgod mewn un rhan o'r fferm yn fuddiol i dyfiant y da byw? Neu, a oes rhan o'r fferm yn dueddol o ddioddef llifogydd?

Gall y goeden iawn yn y lle iawn gynnig lluo o fanteision. Yn ôl astudiaeth 5 mlynedd, roedd defaid sydd yn pori mewn mannau cysgodol yn dangos cynnydd o 21% mewn cynnydd pwysau byw. Roedd ardaloedd cysgodol hefyd yn dangos cynnydd o hyd at 17% mewn cynhyrchiant llaeth, ac roedd cynnydd o 20% mewn twf porfa o ganlyniad i briddoedd cynhesach.

I sicrhau bod y system ffermio a'r coed yn elwa wrth fynd law yn llaw, mae'n rhaid hefyd sicrhau bod gofynion Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn cael eu hateb sef bod y coed yn cynnig buddion cynaliadwy, drwy gynnig swyddogaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Mae gan bob coeden bwrpas ac anghenion, felly mae dewis y math cywir yn hanfodol ar gyfer goroesiad a chadernid y goeden. I sicrhau hyn, mae'n rhaid dewis rhywogaeth yn ôl priodweddau'r tir, tirlun a'ch disgwyliadau o blannu coeden.

Mae'n bwysig hefyd ystyried ffactorau megis effeithiau newid hinsawdd a bygythiadau pathogenau a phlâu wrth gynllunio.

Felly, dylid cysidro plannu amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys cymysgedd o goed llydanddail a chonwydd, a rheoli'ch coedwigoedd i ddatblygu amrywiaeth mewn strwythur er mwyn sicrhau gwydnwch i'r dyfodol. Mae plannu coed o had sydd wedi ei gasglu a'i dyfu yn y DU hefyd yn ffactor a allai gyfrannu at wytnwch ein coedlannau.

Bydd dewis rhywogaeth o'r un math o goed sydd eisoes yn tyfu yn yr ardal yn rhoi syniad o ba goed fyddai fwyaf tebygol o allu delio gyda'r pridd a'r amgylchedd i oroesi.

Mae'n bwysig adnabod y pridd wrth gynllunio. Er bod gan lawer o rywogaethau coed y gallu i dyfu mewn ystod o amodau gwahanol, mae rhai yn tyfu yn well mewn mathau penodol o bridd. Er enghraifft, mae'r goeden dderw yn ffafrio priddoedd llaith wedi'u draenio'n dda yn hytrach na phriddoedd tywodlyd.

Mae cyflwr y pridd yn dueddol o newid ar draws y fferm. Mae'n bwysig ystyried bod rhai coed yn fwy addas i amgylcheddau penodol, a bod gan rywogaethau gwahanol ofynion lleithder gwahanol. Er enghraifft, mae coed helyg, gwern a bedwen gyffredin yn hoff o ardaloedd gwlyb, ac mae'r fedwen arian a'r griafolen yn gallu ymdopi gydag amgylchfyd mwy agored a sych.

Os mai'r nod yw creu coedlan gadwriaethol ar gyfer bywyd gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth, dylid dewis rhywogaethau coed sydd yn cynhyrchu ffrwyth. Gall y rhain gynnwys coed crafol, cyll, afalau surion, ceirios, ffawydd neu dderw.

Os mai'r nod yw plannu coedlan gynhyrchiol tra'n canolbwyntio ar graidd y busnes o gynhyrchu bwyd, mae'n bwysig ystyried ardaloedd addas i blannu fel nad ydynt yn amharu ar ei gilydd. Gall hyn gynnwys tir ymylol a llai cynhyrchiol y fferm fyddai'n cyfrannu tuag at well perfformiad economaidd ac amgylcheddol i'r fferm gyfan.

Mae'r ystod o ddewis o goed i'w plannu yn amrywio ond y sbectol Sitka ydi'r un mwyaf poblogaidd gyda defnyddwyr y dyddiau hyn. Mae'n tyfu orau ar briddoedd mwy diffryth ond yn hoffi lleithder felly'n addas iawn i'r ucheldir yng Nghymru. Fel arall, ble mae'r pridd yn caniatáu h.y. gyda dyfnder ac yn draenio'n dda gellir ystyried Ffinidwydden Douglas sydd, oherwydd ei chryfder, yn cael ei defnyddio ar gyfer adeiladu.

Mae'n bwysig nodi, o ganlyniad i statws afiechyd sy'n effeithio coed llarwydd a choed ynn yng Nghymru ar hyn o bryd, ni chaniateir plannu'r rhywogaethau hyn.

Gweler gwefan Coed Cymru am wybodaeth er mwyn helpu i ddewis rhywogaeth coed yn seiliedig ar ofynion lleithder y coed.

[www.coed.cymru](http://www.coed.cymru)

Mae'r nawfed rownd Mynegi Diddordeb ar gyfer y cynllun Creu Coetir Glastir wedi ei ymestyn hyd at 31 Gorffennaf 2020. Noder fod yn rhaid i gynllunydd cofrestredig gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb ar eich rhan. Gweler <https://llyw.cymru/cynllunwyr-coetir-glastir-manylion-cyswllt> am fanylion cynllunwyr coetir Glastir.



Enghraifft o sut mae plannu coed yn cael ei ddylunio i helpu i reoli da byw a lleihau llif trostir

# Merched MEWN AMAETH

## NIFEROEDD UCHEL YN CYMRYD RHAN YN YMGYRCH AR-LEIN MERCHED MEWN AMAETH

Derbyniodd Cyswllt Ffermio bron i 30,000 rhyngweithiad ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan pan aeth ymgyrch flynyddol y rhaglen, Merched mewn Amaeth (MMA), ar-lein am y tro cyntaf fis diwethaf.

'Arwain newid' oedd y teitl eleni; bu'r gwahanol weminarau grŵp, cymorthfeydd ffôn un-i-un a oedd wedi'u tanysgrifio'n llawn, cyflwyniadau fideo ar-lein a'r sesiynau Cwestiwn ac Ateb yn fformat llwyddiannus. Roedd y pynciau'n amrywio o les meddyliol i ddatblygiad personol ac o gynllunio olyniaeth i iechyd anifeiliaid ac arallgyfeirio, gan ddenu sylwadau, safbwyntiau a barn gan ferched nid yn unig ledled Cymru a'r DU ond hyd yn oed Dubai!

Dywedodd Eirwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglenni Gwledig gyda Menter a Busnes, fod llwyddiant yr wythnos yn paratōi'r ffordd ar gyfer cynyddu'r ystod o wasanaethau digidol neu ar-lein sy'n cael eu darparu gan Cyswllt Ffermio, sydd wedi bod yn ehangu'n raddol ers i gyfyngiadau Covid-19 gael eu cyflwyno, gan roi terfyn ar bob cynulliad torfol.

"Er na chafodd y rhai a gymerodd ran yn nigwyddiad Merched mewn Amaeth eleni gyfle i rwydweithio wyneb i wyneb, sydd bob amser yn rhan gymdeithasol iawn o'r diwrnod, drwy newid fformat a hyd yr ymgyrch, rydym wedi gallu estyn allan ac ysbrydoli miloedd yn fwy o unigolion a ymunodd ar-lein."

Anna Truesdale, merch ifanc amlwg a dylanwadol ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n ffermio gyda'i theulu yn County Down, Gogledd Iwerddon oedd un o sêr yr wythnos.

"Ysgogodd brwdfrydedd a phositifrwydd Anna adborth cadarnhaol iawn a chafodd y cyflwyniad a recordiwyd yn arbennig ganddi ei wyllo gan bron i 4,000 o bobl. Dyna ddechrau wythnos wych o weithgareddau a ragorodd ar yr holl ddisgwyliadau."

DS Os wnaethoch chi fethu unrhyw un o'r cyflwyniadau eleni, neu os hoffech glywed y geiriau doeth hynny eto, gallwch eu gwyllo eto drwy fynd i dudalennau Merched mewn Amaeth ar [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

## MERCHED MEWN AMAETH 2020...GEIRIAU DOETH



*"Y gyfrinach i lwyddo yw dechrau."*

Rhannodd Anna Truesdale, seren Instagram, ei chynghorion ar gyfer creu cynnwys a denu dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol.



*"Camwch yn ôl, ailfeddylwch a symudwch eich busnes yn ei flaen!"*

Bu i Lilwen Joynson mentor Cyswllt Ffermio daro tant gyda nifer oedd yn bresennol pan soniodd am bwysigrwydd datblygiad personol.



*"Addaswch i newid, dysgwch y gwersi, daliwch ati."*

Mae Julie a Keri Davies, ffermwyr o Ddyffryn Crai, wedi arallgyfeirio ac yn cadw busnes twristiaeth 5\*. Soniodd y ddau yn gwbl onest sut y gwnaethon nhw ailafael yn eu busnes ar ôl digwyddiad erchyll a dod yn ôl yn gryfach.



*"Dechreuwch y sgwrs, dydi hi byth yn rhy fuan."*

Pwysodd Siân Bushell, mentor Cyswllt Ffermio ar deuluoedd i fynd i'r afael â'r pwnc anodd o gynllunio olyniaeth yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach - sy'n aml meddai yn rhy hwyr!

#AmaethHi





# Gweminarau Iechyd a Lles Anifeiliaid...eich helpu i ddiogelu iechyd eich stoc



Mae gofalu am iechyd a lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i bob ffermwr bob amser. Nid yw anwybyddu arwyddion cynnar neu adael i bethau lithro yn ddewis i unrhyw fusnes effeithlon, sy'n cael ei redeg yn broffesiynol.

Wrth i'r diwydiant addasu i ymdopi â chyfyngiadau Covid-19, mae llawer o ffermwyr yn troi at Cyswllt Ffermio am gymorth. Ar yr amod eu bod wedi cofrestru, gall ffermwyr cymwys dderbyn cyfarwyddyd ar-lein 'o bell' gan filfeddygon fferm wedi eu cymeradwyo. Cyflwynir y gweminarau rhyngweithiol gan filfeddygon trwy Gymru i gyd, ac mae wedi ei ddylunio gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Afiechydon Anifeiliaid Cenedlaethol (NADIS).

- ✓ Gweithdai iechyd anifeiliaid wedi eu hariannu yn llawn – wedi eu cyflwyno 'o bell' trwy weminarau
- ✓ Sesiynau byr, rhyngweithiol ar ystod eang o bynciau sy'n cael eu cyflwyno gan filfeddygon wedi eu cymeradwyo
- ✓ Dysgwch sut i ddynodi a rheoli llawer o broblemau iechyd anifeiliaid
- ✓ Cymryd camau i ddatrys problemau a lleihau'r angen am ymyraethau proffesiynol


Mae'r ystod eang o bynciau gweminarau yn cynnwys:

| Ymwrthedd i wrthfotigau           | Cloffni                     |
|-----------------------------------|-----------------------------|
| TB Buchol                         | Mastitis                    |
| Dolur rhydd feirysol buchol (BVD) | Rheoli Parasitiaid*         |
| Clefyd Johne                      | Colledion cyn ac ar ôl ŵyna |

“Gyda phob gweminar yn para am lai na dwy awr dan arweiniad milfeddyg fferm cymeradwy, mae ffermwyr yn cael y cyfle i ddysgu gan arbenigwr; i godi unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw a dysgu o brofiad ffermwyr eraill sy'n cymryd rhan,” dywed Rebecca Summons, sy'n arwain ar gyflwyno hyfforddiant iechyd anifeiliaid ar ran Cyswllt Ffermio.

“Mae cynllunio iechyd anifeiliaid fferm yn golygu cael agwedd ragweithiol sy'n canolbwyntio ar atal afiechydon yn hytrach na'u gwella.

“Mae'r manteision i fusnesau fferm unigol yn sylweddol oherwydd mae gwella iechyd a lles anifeiliaid yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant a gwynwch,” dywedodd Miss Summons.



Mae rhestr o'r holl gwmnïau milfeddygol sy'n cymryd rhan a'r pynciau y maen nhw'n eu cynnig, ar gael ar dudalen Sgiliau a Hyfforddiant ar wefan Cyswllt Ffermio, gydag amseroedd, dyddiadau a manylion cofrestru ar y tudalennau 'Beth sydd ymlaen'. Bydd yr holl gyfranogwyr yn cael tystysgrif 'presenoldeb o bell' a fydd yn cael ei hychwanegu ar eu rhan at eu cofnod Storfa Sgiliau Cyswllt Ffermio.

Mae'n hawdd cysylltu â'r gweminarau a gellir eu harchebu trwy unrhyw gwmni milfeddygol sy'n cymryd rhan.

*\* Datblygwyd cynllunydd ar-lein i reoli parasitiaid newydd sy'n galluogi milfeddygon a ffermwyr i lunio cynllun rheoli parasitiaid ar gyfer eu diadell a/neu fuches. Mae'r cynllunydd ar gael i'w weld yn [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio) a gellir ei weithredu a'i gynnwys mewn cynllun iechyd fferm.*

Gall ffermwyr sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio sydd â diddordeb mewn pynciau iechyd penodol hefyd gael mynediad at amrywiaeth eang o fodiwlau e-ddysgu rhyngweithiol wedi eu hariannu'n llawn.

**Mae'r pynciau yn cynnwys** - Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR); Cloffni gwartheg; Rheoli BVD; Rheoli llyngyr yr iau; Clafr; Elfennau hybrin mewn da byw

Ewch i [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio) i weld y rhestr lawn o gyrсияu e-ddysgu.





## Ffermwyr geifr godro Cymreig yn cyflwyno manteision ffrwythloni artiffisial i'w braidd ei hun

**Dywed cynhyrchydd laeth geifr Cymreig fod gan ffrwythloni artiffisial y potensial i wella perfformiad y praid cenedlaethol yn gyflymach.**

Bu Gary Yeomans yn defnyddio technegau ffrwythloni artiffisial ar ei braidd ei hun o 600 o eifr Saanen, Toggenberg ac Alpaidd Prydeinig ers iddo ymweld â Ffrainc drwy Raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio i ddysgu mwy am y dechneg.

Mae miliwn o eifr godro i'w cael yn Ffrainc ar 6,000 o ffermydd, ac maent yn cynhyrchu 29% o'r cynhyrchiant laeth geifr yn Ewrop.

O ganlyniad i'r Rhaglen Cyfnewidfa, mae Mr Yeomans wedi addasu ei raglen fridio yn Pant Farm, Llanwytherin, drwy ffrwythloni grŵp o eifr drwy ddefnyddio'r technegau ffrwythloni'n artiffisial a ddefnyddir yn Ffrainc.

"Rydyn ni newydd sganio'r geifr hyn ac mae 48% ohonynt yn gyfeb, o'i gymharu â 38% pan arferem ddefnyddio'r milfeddyg," meddai Mr Yeomans a oedd, gyda'i wraig Jess, ymysg y buddugwyr yng Ngwobr Ffermwyr y Flwyddyn y Farmers Weekly.

Mae ef nawr yn annog ffermwyr geifr eraill yng Nghymru i ddefnyddio ffrwythloni artiffisial ar eu preiddiau eu hunain, gan ei fod yn rhoi ichi gynydd geneteg cyflymach a hefyd, gan eich bod yn gwybod pryd bydd y mynnod geifr yn cael eu geni, bydd yn haws rheoli'r praid.

"Dylai preiddiau geifr ddechrau defnyddio ffrwythloni artiffisial i wella'u perfformiad," meddai Mr Yeomans.

"Mae'n gwella bioddiogelwch gan fod llai o angen prynu geifr gwryw i mewn a gall y cyfleuster ganolbwyntio ar wella nodweddion penodol yn y praid."

Mae'n cydnabod bod ffrwythloni'n artiffisial yn ddrutach ond dywed bod y manteision ariannol yn sgil y gwelliannau hyn yn fwy na'r gost oherwydd, drwy wella'r geneteg, gallwch gynhyrchu geifr mwy proffidiol a chael gwell cynhyrchiant laeth, nodweddion a hirhoedledd.

Mae Mr Yeomans yn defnyddio semen geifr o Ffrainc oherwydd y profion epilion helaeth a wnaed yn y wlad honno, gydag o leiaf 60 merch yn ofynnol o bob bwch.

Ceir hefyd wybodaeth dda am

werthoedd bridio, amrywiaeth o linachau gyda dewis ar gael o ran laeth, elfennau a math, meddai.

Mae rhaglen eneteg Alpaidd a Saanen Ffrainc yn cynnwys 170,000 o eifr gyda'r amcanion dethol yn amrywio o ansawdd a chyfaint laeth a chyfansoddiad y pwrs/cadair i gyfrif celloedd somatig a llai o fewnfridio.

Yn Ffrainc, mae semen wedi'i rewi ar gael ar gyfer yr holl fridiau geifr, gan roi cyfradd feichiogrwydd gyfartalog o 62%.

Caiff geifr eu dethol ar sail eu gallu i atgennedlu, eu lefel geneteg a'u morffoleg.

Drwy'r rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth cafodd Mr Yeomans wneud hyfforddiant ffrwythloni artiffisial yn Capgenes, sef cydweithfa bridwyr geifr sydd wedi'i chymeradwyo gan Weinyddiaeth amaeth Ffrainc ar gyfer rheoli bridiau.

Mae'n awr yn bwriadu cadw mwy o eifr yn ei braidd sydd wedi'u bridio drwy ffrwythloni artiffisial dros y blynyddoedd nesaf.

"Os bydd y gyfradd lwyddiant yn parhau, mae'n bosibl y gwnaf gynnig gwasanaeth ffrwythloni artiffisial i ffermwyr geifr eraill yn yr ardal," meddai.





## 'Llysgenhadon ar gyfer ein diwydiant' - Academi Amaeth 2020!

Mae'n bleser gan Cyswllt Ffermio gyhoeddi enwau'r 24 ymgeisydd llwyddiannus sydd wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn ei raglen datblygu personol arloesol, yr Academi Amaeth. Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, llwyddodd y panel o feirniaid annibynnol gynnal y broses o lunio rhestr fer ynghyd â'r gweithdrefnau cyfweld o bell.

Yn ôl Aled Rhys Jones, a fydd yn arwain 12 o ymgeiswyr sy'n cymryd rhan yn Rhaglen yr Ifanc eleni, menter ar y cyd gyda CFFI Cymru, a Llyr Jones, arweinydd y Rhaglen Busnes ac Arloesedd, roedd y panel yn hapus iawn gyda phob un o'r ymgeiswyr llwyddiannus, gan eu bod yn dangos agwedd uchelgeisiol a phenderfynol er mwyn cerfio gyrfaedd llwyddiannus ym myd amaeth.

"Rydym ni'n edrych ymlaen at weithio gyda grwpiau 2020 - maen nhw'n grŵp talentog o bobl ifanc gyda thrawstoriad o gefndiroedd, diddordebau a syniadau.

"Mae pob un ohonynt yn llysgennad ar gyfer ein diwydiant, ac mae'n bendant yn werth cadw golwg ar eu datblygiad at y dyfodol!"

### Dyma beth oedd gan bedwar o ymgeiswyr eleni i'w ddweud...

#### Laura Lewis, Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Mae'r athrawes gymwys, Laura Lewis, yn briod â ffermwr defaid ac mae gan y pâr ddau o blant ifanc. Gyda dau dŷ pren coeden hynod boblogaidd eisoes wedi rhoi'r busnes teuluol yn Llanbister ar y map twristiaeth, a chaniatâd cynllunio wedi cael ei dderbyn i adeiladu trydydd, mae Laura bellach wedi dechrau gweithio ar sail lawn amser yn marchnata ac yn hyrwyddo eu busnes.

"Byddaf yn marchnata'r fenter gyfan fy hun at y dyfodol, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a derbyn archebion uniongyrchol ar-lein.

"Credaf y bydd cymryd rhan yn Rhaglen Busnes ac Arloesedd yr Academi Amaeth yn rhoi'r hyder, y rhwydweithiau a'r sgiliau angenrheidiol i mi allu hyrwyddo ein brandiau ar gyfer y tai pen coed a'r wefan ar gyfer y cleientiaid yr ydym eisoes wedi dechrau cysylltu â nhw."



#### Rhun Crimes, Rhaglen yr Ifanc

Mae Rhun yn fyfyrwr chweched dosbarth sydd ar hyn o bryd yn astudio cymwysterau Lefel AS a BTEC peirianeg yn Ysgol Aberaeron yng Ngheredigion. Magwyd Rhun ar fferm biff a defaid y teulu ym Mydroilyn, ac mae'n gobeithio mynd ymlaen i astudio amaeth yn y brifysgol.

"Rwy'n credu y bydd bod yn rhan o Raglen yr Ifanc yr Academi Amaeth yn fy helpu i ddysgu mwy am ffermio modern a sut y mae angen i ni addasu i ymateb i newidiadau economaidd a gwleidyddol presennol ac at y dyfodol.

"Rydwn i'n edrych ymlaen at gyfarfod a dysgu gan bobl yr un oed â mi sy'n rhannu'r un diddordebau ffermio â mi."

#### Tomos Huws, Rhaglen Busnes ac Arloesedd

Mae gan Tomos Huws radd mewn rheolaeth cefn gwlad, a dywed fod ei gefndir a'i fagwraeth ar fferm biff a defaid y teulu, ynghyd â thaith i weithio i Seland Newydd, wedi ei berswadio ei fod eisieu bod yn ffermwr ymarferol. Yn ei swydd bresennol, mae'n rheoli buches laeth 300 o wartheg ger Llanrwst.

"Rwy'n ffyddiog y bydd bod yn rhan o Raglen Busnes ac Arloesedd yr Academi Amaeth yn fy nghynorthwyo i symud ymlaen o fewn y diwydiant, drwy roi'r sgiliau angenrheidiol i mi allu creu busnes proffidiol a llwyddiannus.

"Rwy'n sicr y bydd ehangu fy rhwydwaith o gysylltiadau a mentoriaid yn fy nghynorthwyo i osod targedau realistig, agor drysau newydd ac yn rhoi syniadau newydd i mi ynglŷn â sut i greu busnes llwyddiannus."



#### Elan Thomas, Rhaglen yr Ifanc

Mae Elan Mair Thomas yn fyfyrwraig yn Ysgol Dyffryn Taf yn Hendy-gwyn ar Daf. Cafodd ei magu ar y fferm laeth y teulu yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n mwynhau gweithio gyda'r lloï gartref ac ar fferm gyfagos, lle mae ganddi waith rhan amser yn gofalu am y stoc, a dangos yr anifeiliaid.

Breuddwyd Elan yw cymhwyso fel cyfreithwraig a gweithio yn ei sir enedigol yn ogystal â chadw ei buches ei hun o wartheg Jersey pedigri.

"Rwy'n credu y bydd bod yn rhan o Raglen yr Ifanc yr Academi Amaeth yn gwella fy natblygiad personol, yn datblygu fy hyder ac yn helpu i ategu fy ngwerthoedd craidd a'm cred mai ffermydd teuluol yw asgwrn cefn ein gwlad."





## SERENNYN - CNWD NEWYDD AR GYFER CYMRU?

Yn ystod gwanwyn 2018, roedd pum ffermwr o ogled Cymru yn paratoi i blannu bylbiau serennyn (squill) am y tro cyntaf erioed yn y Deyrnas Unedig. Er nad yw'r cnwd erioed wedi ei blannu yma yn y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf ohonom wedi dod ar draws y planhigyn rywbyrd yn ein bywydau gan ei fod yn cynnwys un o'r elfennau allweddol mewn llawer o ffisig peswch y gallwch ei brynu dros y cownter.

Planhigyn gwyllt lluosflwydd yw serennyn y môr (*Drimia martima*) sy'n tyfu o fylb mawr ychydig dan wyneb y pridd. Mae'n tyfu yn wyllt yn bennaf mewn ardaloedd arfordirol creigiog o gwmpas Môr y Canoldir. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r planhigyn wedi cael ei gasglu yn eang yn yr ardaloedd hyn oherwydd y cynnydd yn y galw am y cynhwysyn allweddol i gynhyrchu meddyginiaethau.

Cadarnhaodd ymchwil cychwynnol ym Mhrifysgol Bangor y gall serennyn dyfu yma yng Nghymru a thaniodd hyn y diddordeb mewn cael prosiect ar raddfa fwy i ddysgu rhagor. Diben y prosiect EIP Wales oedd ymchwilio i'r gallu i dyfu serennyn mewn amrywiaeth o leoliadau gydag amodau amrywiol fel glawiad, uchder a phellter o arfordir gogledd Cymru. Yn bwysicach fyth roedd yn anelu at ddarganfod a allai'r planhigyn gynhyrchu lefelau addas o'r cynhwysyn gweithredol sydd â'r galw mawr amdano yn y byl.



Ffigur 1. Lleoliad ac uchder y pum safle treialu

## Y CANLYNIADAU

Mae'r tabl isod yn dangos cip ar ganlyniadau'r prosiect.

| Safle   | Uchder (Metrau) | Pwysau'r byl serennyn wrth ei blannu yn 2018 (kg) | Pwysau'r byl serennyn wrth ei gynaeafu yn 2019 (kg) | Tyfiant |
|---------|-----------------|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|---------|
| Safle 1 | 197             | 14                                                | 34                                                  | 242.86% |
| Safle 2 | 8               | 15                                                | 32                                                  | 213.33% |
| Safle 3 | 32              | 14                                                | 35                                                  | 250.00% |
| Safle 4 | 33              | 15                                                | 36                                                  | 240.00% |
| Safle 5 | 15              | 14                                                | 34                                                  | 242.86% |

Dangosodd y prosiect y gall serennyn gael ei dyfu yn llwyddiannus yng ngogledd Cymru a'i fod yn cynnwys elfennau o werth uchel y gall y sector fferyllol eu defnyddio. Dangosodd dadansoddiad o'r pridd cyn plannu ac ar ôl cynaeafu hefyd nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i gydbwysedd macro-faetholion y pridd, ond mae angen cynllun treialu dros nifer o flynyddoedd i archwilio'r effaith tymor hir ar lefelau maetholion yn y pridd.

Bu Kevin Stephens, oedd yn un o gyd-sefydlwyr Agroceutical Products, sy'n prosesu galanthamin o gennin Pedr, yn gweithio'n glos gyda'r grŵp trwy gydol y prosiect. Mae'n hyderus y gall serennyn gael ei blannu, ei gynaeafu a'i brosesu gydag offer cymharol rad ar ffermydd cyn cael ei werthu ymlaen i'w brosesu ymhellach. Roedd ganddo ddiddordeb mawr hefyd yn y ffaith bod serennyn yn cynnwys nifer o gyfansoddion eraill sydd â nodweddion gwrth-facteraidd a gwrth-ganser posibl ac a all fod o ddiddordeb hefyd i drin diabetes ac arthritis.



Ffigur 2. Bylb serennyn

Mae angen rhagor o waith i ailadrodd y treialon ac i arbrofi gyda gwahanol amodau tyfu i gynyddu ein gwybodaeth am y planhigyn rhyfedd hwn. Mae angen rhagor o ymchwil hefyd i sut y gallai ffermwyr sydd am ddechrau tyfu serennyn gyrraedd y farchnad gan fod cyfyngiadau rheoleiddiol wrth gyflenwi cynhwysion ar gyfer cynhyrchion yn gysylltiedig ag iechyd. Ond mae canlyniadau'r prosiect hwn wedi bod yn galonogol iawn a gobeithio ei fod wedi rhoi hwb i gychwyn dewis cyffrous o ran arallgyfeirio i ffermwyr Cymru.

Mae adroddiad prosiect llawn ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

# Rhaglen Hyfforddiant TGCh

Os hoffech chi gael rhagor o gymorth neu gefnogaeth mae help ar gael i fusnesau cymwys trwy raglen hyfforddi TGCh Cyswllt Ffermio sydd wedi ei hariannu yn llawn.



## Hyfforddiant ar-lein TGCh...ar adeg, lefel a chyflymder addas i chi!

Er gwaethaf y cyfyngiadau presennol ar hyfforddiant wyneb yn wyneb, mae ein hyfforddiant cyfrifiadurol sy'n cael ei ariannu yn llawn ar gael ar-lein, yn ddigidol neu dros y ffôn yn awr, i fusnesau fferm a choedwigaeth cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

### Hyfforddiant i ddechreuwyr llwyr

- Cwrs astudio o gartref, sy'n rhoi hyd at chwe wythnos i chi i'w gwblhau ar gyflymder sy'n addas i chi
- Bydd pob un o'r chwech llyfr gwaith yn eich dysgu sut i anfon a derbyn negeseuon e-bost; defnyddio Word; defnyddio taenlenni Excel; dysgu sut i chwilio'r we; defnyddio cyfryngau cymdeithasol a chael mynediad i Daliadau Gwledig Cymru ar-lein
- Y dewis i siarad yn uniongyrchol ag un o'n tiwtoriaid coleg os bydd amoch angen help ychwanegol

### Tiwtora un i un 'o bell' i'r rhai â sgiliau TGCh sylfaenol

- Hyd at ddwy sesiwn diwtora trwy alwad ffôn, ar-lein neu ddigidol gan diwtoriaid TGCh arbenigol (hyd at ddwy awr yr un)
- Yr hyfforddiant yn cael ei addasu i'ch gofynion, gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth TGCh, gan gynnwys defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i naill ai hyrwyddo eich busnes neu 'gyfarfod' ar-lein

### Gweminarau ar-lein i unigolion sydd am ddysgu am y TGCh diweddaraf

- Dysgwch sut i ddefnyddio TGCh yn eich busnes fferm a choedwigaeth
- Ar gyfer pynciau gweminar a allai gynnwys e.e. creu gwefan; pecynnau meddalwedd fferm; defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ewch i dudalen 'Beth sydd ymlaen' ar wefan Cyswllt Ffermio.

Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb ewch i

**[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)** neu

cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.

#einffermydd  
#ourfarms



**YN FYW O'R FFERM**


**DEMO FARM LIVE**

Ymunwch â ni yn fyw o'n safleoedd arddangos trwy gydol yr haf o gysur eich cartref eich hun, lle bydd ffermwyr yn dangos, o'u profiad personol, sut mae technoleg newydd a gwahanol dechnegau rheoli yn newid y ffordd maen nhw'n ffermio.

Byddwn yn ateb eich cwestiynau yn fyw gyda'r ffermwyr a'r panel o arbenigwyr ym mhob digwyddiad.

**[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)**

| Dyddiad    | Amser | Safle Arddangos       | Prif destun y digwyddiad                                                                                                                                                       |
|------------|-------|-----------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 22/07/2020 | 19:30 | Mountjoy, Hwlfordd    | Croesawu technoleg genomeg i fridio buchod cyfnewid a lleihau mewnbynnau nitrogen trwy ddefnyddio meillion.                                                                    |
| 05/08/2020 | 19:30 | Rhiwaedog, Y Bala     | Gwerthuso buddion technoleg i ganfod pan fo buchod yn gofyn tarw i sicrhau enillion o ran ffrwythlondeb y fuches sugno. Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd oddi ar y borfa |
| 19/08/2020 | 19:30 | Wern, Y Trallwng      | Archwilio'r amodau amgylcheddol gorau posibl ar gyfer ieir dodwy maes h.y. aer; gwastraff a dŵr i wella iechyd yr adar ac felly cynhyrchiant a phroffidoldeb.                  |
| 02/09/2020 | 19:30 | Graig Olway, Brynbuga | Canolbwyntio ar symudedd gwartheg, storio slyri ac isadeiledd.                                                                                                                 |
| 16/09/2020 | 19:30 | Dolygarn, Y Drenewydd | Opsiyau porthiant amgen i wella cynhyrchiant a lleihau'r effaith amgylcheddol ar fferm ucheldir.                                                                               |





# Gweminarau Wythnosol

Ymunwch â ni ac arbenigwyr y diwydiant mewn amrywiaeth eang o weminarau amserol wedi'u hanelu at ddarparu cymorth a gwybodaeth ddefnyddiol i chi yn ystod y cyfnod ansicr hwn. I ymuno â gweminar, cysylltwch â Delyth Evans ar [delyth.evans@menterabusnes.co.uk](mailto:delyth.evans@menterabusnes.co.uk) neu ewch i'n tudalen digwyddiadau ar ein gwefan.



| Pryd                      | Pwnc                                                                                                                                                                                                                 | Siaradwr                                                                                                                 |
|---------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 16/7/20<br>20:15          | <b>Ychwanegu gwerth i goetir fferm</b>                                                                                                                                                                               | Gareth Davies,<br><i>Coed Cymru</i>                                                                                      |
| 22/07/20<br>19:30 - 21:00 | <b>Yn Fyw o'r Fferm – Mountjoy</b><br>Croesawu technoleg genomeg i fridio buchod cyfnewid a lleihau mewnbynnu nitrogen trwy ddefnyddio meillion.                                                                     | Fearne Pearston,<br><i>AHDB</i><br>Chris Duller,<br><i>Arbenigwr glaswelltir annibynnol</i>                              |
| 23/07/20<br>19:00 – 20:00 | <b>Amaeth goedwigaeth</b> - cyflwyniad a buddiannau i fusnes y fferm yng Nghymru                                                                                                                                     | Tim Pagella,<br><i>Prifysgol Bangor</i>                                                                                  |
| 27/07/20<br>18:30         | <b>Cyflwyniad i ddronau a'u manteision</b>                                                                                                                                                                           | Sam Cook,<br><i>Tremio Aerial Photography</i>                                                                            |
| 28/07/20<br>20:00         | <b>Opsiynau arallgyfeirio</b> - a fydd Covid-19 yn agor drysau i gyfleoedd newydd i ffermwyr?                                                                                                                        | Jeremy Bowen Rees,<br><i>Landsker</i>                                                                                    |
| 03/08/20<br>18:00         | <b>Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol</b>                                                                                                                                                                           | Eddy Webb,<br><i>Insynch</i>                                                                                             |
| 05/08/20<br>19:30         | <b>Yn Fyw o'r Fferm – Rhiwaedog</b><br>Gwerthuso buddion technoleg i ganfod pan fo buchod yn gofyn tarw i sicrhau enillion o ran ffrwythlondeb buches sugno. Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd oddi ar y borfa. | Joe Angell,<br><i>Milfeddygon y Wern Veterinary Surgeons</i><br>Chris Duller,<br><i>Arbenigwr glaswelltir annibynnol</i> |
| 06/08/20<br>19:30         | <b>Ystyriaethau a chynllunio ar gyfer system silwair aml-doriad</b>                                                                                                                                                  | Richard Gibb,<br><i>Arbenigwr annibynnol</i>                                                                             |
| 10/08/20<br>18:00         | <b>Creu Gwefan</b>                                                                                                                                                                                                   | Eddy Webb,<br><i>Insynch</i>                                                                                             |
| 13/08/20<br>20:15         | <b>Cynlluniau Rheoli Gwrychoedd</b>                                                                                                                                                                                  | Peter Jackson,<br><i>AgriPlan Cymru</i>                                                                                  |